NEWPORT LIVE
CASNEWYDD FYW

# Hyfforddwr Ffitrwydd (Campfa) – 3 swydd

Cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2023

# Canolfan Tennis a Nofio Ranbarthol a Felodrôm Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas

## Gradd 3 (PCG 14-17 £17,193 - £18,401)

**ynghyd â buddion**

**Swydd 1: 15.5 awr yr wythnos**
(Mawrth 6:00am - 11:30am, Iau 5:00pm - 10:00pm, Sadwrn 7:00am - 12:00 hanner dydd)

**Swydd 2: 13 awr yr wythnos**
(Iau 4:00pm - 9:00pm, Sul 8:00am - 4:00pm

**Swydd 3: 14 awr yr wythnos**
(Iau 6:00am - 12:00 hanner dydd, Sul 10:00am - 6:00pm)

Nodwch ar y ffurflen gais pa swydd yr ydych yn gwneud cais amdano.  Mae Casnewydd Fyw yn cadw'r hawl i gau ceisiadau yn gynnar os ydym yn derbyn digon o ddiddordeb yn y rolau.

Mae Casnewydd Fyw yn ymddiriedolaeth arobryn nid er elw sy'n ymwneud â chwaraeon, hamdden a diwylliant; ac yn Elusen gofrestredig y DU sydd â hanes ardderchog o ddarparu rhaglenni a gwasanaethau arloesol i'n cymunedau a'n trigolion sy'n *'ysbrydoli pobl i fod yn hapusach ac yn iachach'.*

Rydym yn edrych i recriwtio Gweithiwr Proffesiynol sydd â chymwysterau addas fel rhan o'r tîm ffitrwydd Casnewydd Fyw sefydledig yn Felodrôm Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas.

Byddwch yn aelod allweddol o'r Tîm Ffitrwydd sy'n ymgysylltu ar lawr y gampfa gydag egni, angerdd a brwdfrydedd dros ffitrwydd a lles mewn eraill. Gan yrru taith yr aelod yn ei flaen o'r Croeso i Aelod Croeso i Raglenni 121 a Ffitrwydd Parhaus yn unol â nodau unigol.

Byddwch yn meddu ar o leiaf Gymhwyster Hyfforddwr Campfa Lefel 2 Cydnabyddedig gan CIMSPA gyda rhywfaint o brofiad mewn amgylchedd ffitrwydd.

Rhaid i chi ddangos tystiolaeth o gymhwysedd digidol, gweithio ar eich menter eich hun a phrofiad o ddelio â chleientiaid a'u hanghenion gan gynnig gwybodaeth a chyngor cadarn a gan annog dyfalbarhad yr ymarfer corff a chadw aelodau.

Byddai'r gallu i gyflwyno dosbarthiadau ffitrwydd ymarfer corff grŵp yn unol â'n hamserlen ddosbarthiadau helaeth yn fanteisiol.

Mae'r swydd wedi'i heithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) ac mae'n amodol ar wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) llwyddiannus.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch ag ymholiadau Casnewydd Fyw ar 01633 656757 a gofynnwch am gael siarad â Bryony Gurmin, Rheolwr Iechyd, Ffitrwydd a Lles neu e-bostiwch bryony.gurmin@newportlive.co.uk


# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **SWYDD:** | **HYFFORDDWR FFITRWYDD** |
| **DIBEN Y SWYDD:** | Eich rôl chi yw cyflawni a chefnogi taith aelodau Casnewydd Fyw. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm sy'n cefnogi taith aelodau'n gorfforol ac yn ddigidol ynghylch gosod nodau ac annog ymlyniad i ymarfer corff a rhoi cyngor. Mae cadw tŷ, cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch cyffredinol o fewn y gampfa hefyd yn hollbwysig. Bydd adegau pan fydd gofyn i chi fynychu gwahanol ddigwyddiadau er mwyn hybu a chefnogi'r busnes. Mae'r rôl yn destun cyfnod prawf o chwe mis. |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Iechyd, Ffitrwydd a Lles |
| **CYFLOG:** | Gradd 3 – (PCG 14-17 £17,193 - £18,401) |
| **PERTHNASOEDD ALLWEDDOL:** | Aelodau'r cyhoedd, partneriaid a rhanddeiliaid a holl gydweithwyr Casnewydd Fyw. |
| **PRIF LEOLIAD:** | **Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd (gyda rhai safleoedd ychwanegol posib pan fo angen yng Nghanolfan Casnewydd, y Felodrôm neu'r Ganolfan Byw'n Actif)** |
| **CYFRIFOLDEB RHEOLI:** | Hyfforddwyr ffitrwydd dan hyfforddiant, Gwirfoddolwyr |

**Byddaf yn llwyddiannus yn fy rôl pan**:

- Fydd fy holl gyfrifoldebau gweithredol allweddol yn cael eu cyflawni'n gyson i safon uchel.
- Byddaf yn cyflawni'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n benodol i'm rôl.
- Byddaf yn fodel rôl ar gyfer gwerthoedd ymddygiadol Casnewydd Fyw drwy fy mherfformiad.
- Byddaf yn cydweithio ar draws adrannau a gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i gwsmeriaid Casnewydd Fyw.
- Trwy fy mherfformiad a'm hangerdd, rwy'n ysbrydoli pobl i fod yn hapusach ac yn iachach

**SUT MAE FY MHERFFORMIAD YN CAEL EI FESUR**




***DATGELU A GWAHARDD:***

Gall y swydd hon olygu y byddwch mewn cysylltiad â phlant, yr henoed, pobl sâl neu anabl. Mae Casnewydd Fyw yn gofyn felly, yn ôl Gorchymyn (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol, gorchymyn rhwymo neu rybudd, gan gynnwys y rhai a ystyrid fel eu bod wedi eu disbyddu. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais. Bydd ceisiadau'n cael eu dychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn destun Gwiriad Datgelu a Gwahardd.

NEWPORT LIVE CASNEWYDD FYW

| CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL: | |
|---|---|
| 1 | I oruchwylio ein cyfleusterau gydag agwedd cynnes, croesawgar a chyfeillgar, gan wneud i aelodau teimlo'n gartrefol, a gyda'r sgiliau pobl i fynd atyn nhw'n hyderus pan fydd angen help arnynt. |
| 2 | Cefnogi aelodau sydd â thaith bwrpasol gynhwysfawr, sy'n asesu eu hanghenion unigol, adeiladu rhaglenni blaengar sy'n strategol i'w nodau, boed yn ddigidol neu'n bersonol. |
| 3 | Sicrhau bod aelodau'n mabwysiadu arferion a safonau diogel, wrth ddefnyddio a gweithredu offer a mwynderau (yn fewnol ac yn allanol). |
| 4 | Cyflwyno taith i aelodau sy'n magu hyder ac ymlyniad at eu nodau, sy'n cael ei adeiladu o amgylch ein datrysiadau digidol o fewn y cyfleuster ffitrwydd. |
| 5 | Cynnal dyletswyddau Hyfforddwr Ffitrwydd yn unol â'r cyfarwyddiadau sydd yn y Gweithdrefnau Gweithredu Arferol a Chynlluniau Gweithredu Brys |
| 6 | Gweithio gyda'r tîm o hyfforddwyr ffitrwydd a'r Rheolwr Ffitrwydd a Llesiant i hyrwyddo gwahanol agweddau ar y busnes, o heriau campfeydd, digwyddiadau aelodau, ymarfer corff grŵp ac allgymorth. |
| 7 | Cefnogwch y tîm wrth adeiladu'r busnes drwy ddarparu galwadau cadw, tywys ac arddangos o gwmpas, cyflwyniadau prisiau, presenoldeb digwyddiadau ac ymgyrchoedd atgyfeirio aelodau yn ôl yr angen. |
| 8 | Sicrhau bod ardaloedd yr ystafelloedd ffitrwydd yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Gweithrediadau Hamdden am unrhyw ddiffygion a phroblemau, a'u cofnodi yn y llyfr trosglwyddo yn unol â gweithdrefnau Casnewydd Fyw. |
| 9 | Sicrhau bod safon uchel o lendid ystafelloedd ffitrwydd yn cael ei gynnal. |
| 10 | Gweithio gyda'r Rheolwr Arweinwyr Tîm a Ffitrwydd, Iechyd a Lles i gyrraedd targedau aelodaeth a chadw penodedig |
| 11 | I ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill, sy'n gymesur â gradd y swydd fel y cyfarwyddir gan y Rheolwr Llinell |

**Mae disgwyl i'r person sy'n gwneud y swydd hon weithio o fewn polisïau, ethos a nodau Casnewydd Fyw a chyflawni dyletswyddau eraill y gallai Prif Weithredwr Casnewydd Fyw eu rhoi iddo. Mae'r cyfrifoldebau uchod yn destun y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cyffredinol sydd yn y Datganiad Amodau Cyflogaeth. Gall dyletswyddau'r swydd hon amrywio o bryd i'w gilydd heb newid naws gyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb sydd ynghlwm â hi. Bydd deiliad y swydd yn gweithio i gyflawni amcanion perfformiad y cytunir arnynt; caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ffurfiol trwy brosesau rheoli perfformiad Casnewydd Fyw.**

## HYFFORDDWR FFITRWYDD – MANYLEB PERSON

| Maes | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Rhaid cael isafswm Lefel 2 o Gymhwyster Cyfarwyddo Ffitrwydd REPS. (FfG) | Wedi ennill neu fod yn gweithio tuag at Gymhwyster PT Lefel 3 a gydnabyddir gan CIMSPA.<br><br>I fod ag atgyfeiriad meddyg teulu neu gymhwyster proffesiynol lefel 4 arall (FfG)<br><br>Hyfforddwr cryfder a chyflyru (FfG)<br><br>Tystiolaeth o gymwysterau datblygiad proffesiynol parhaus megis hyfforddiant cylched, pwysau tegell, beicio grŵp, Vipr, ioga, Pilates, ymarfer bocsio ac ymarfer corff i gerddoriaeth. Bydd gweithio tuag at hyn hefyd yn cael ei ystyried. (FfG)<br><br>Cymhwyster cymorth cyntaf diweddaraf. (FfG) |
| **Gwybodaeth, Sgiliau a Medrau** | Gwybodaeth am wasanaethau Casnewydd Fyw (C)<br><br>Y gallu i arddangos lefelau rhagorol o wasanaeth cwsmeriaid o fewn ein taith aelodau a chefnogi cadw. (FfG)<br><br>Sgiliau cyfathrebu da fel y gallu i ddarparu empathi, adeiladu perthynas a gwneud i bobl deimlo'n gartrefol. Yn ogystal â gallu cyfathrebu'n effeithiol yn bersonol, drwy e-bost, ffôn neu alwad fideo (FfG, C)<br><br>Yn dda o ran llythrennedd digidol a meddalwedd cysylltiedig megis Microsoft Teams, Microsoft Office, Android, IOS. (FfG, P, C)<br><br>Gallu ysgogi cwsmeriaid gyda'r naws a'r iaith corff cywir. (FfG)<br><br>Deall pwysigrwydd sgrinio, ymgynghoriadau a mathau o gyngor lles y gellir ei gynnig o fewn eich terfyn cymhwyster (FfG, C) | I werthu'r busnes yn hyderus a bod yn ymwybodol o'i bwyntiau gwerthu unigryw (C) |
| **Profiad** | Profiad o weithio gyda phobl yn cynllunio a chyflwyno rhaglenni ac adolygiadau strwythuredig. (FfG) | Profiad gyda rhaglennu digidol ac ymgynghoriadau ymarfer fideo (FfG)<br><br>Profiad gyda theithiau gwerthu aelodau a chyflwyniadau prisiau. (FfG) |

| | | |
|---|---|---|
| | Hyderus gyda phrofion ffitrwydd sylfaenol: pwysedd gwaed, mynegai mas y corff, canran braster y corff, prawf camu a chaliperau. (C)<br><br>Deall dyletswyddau ystafelloedd ffitrwydd pwysig eraill megis glendid ac iechyd a diogelwch (C) | |
| **Nodweddion Personol** | Llysgennad ffitrwydd brwdfrydig gyda pharodrwydd ac angerdd i rannu gwybodaeth gadarn a phriodol gyda chleientiaid. (C). | Parodrwydd i gymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad parhaus. (C) |
| **Arall** | Y gallu i weithio oriau hyblyg. (C)<br><br>Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo'n gadarnhaol Polisi Cyfle Cyfartal Casnewydd Fyw. (C) | |

**Dull asesu (*D.A.)**

FfG: Ffurflen gais (gan gynnwys llunio rhestr fer)
T: Tystysgrif
Y: Ymarfer
C: Cyfweliad
Cyf: Cyflwyniad
P: Prawf
CA: Canolfan Asesu